Beth sy'n digwydd i'n Dinasyddion Mwyaf Agored i Niwed 'Nawr?

Yn ddiweddar, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau i CTA Cymru y bydd y Fenter Tocynnau Teithio Rhatach ar Drafnidiaeth Gymunedol (CTCFI) yn dod i ben ar 31 Mawrth 2012. Mae'r cynllun sydd wedi cael ei reoli gan CTA ar ran Llywodraeth Cymru ers 2005, wedi gweld y gweithredwyr sy'n rhan ohono'n darparu bron i 1.3 miliwn o deithiau i deithwyr yn ystod y cyfnod hwnnw i 'r henoed a phobl ag anabledd difrifol na fyddent fel arall wedi medru defnyddio amrywiaeth o wasanaethau pob dydd.

Sefydlwyd CTCFI ar sail sicrhau cydraddoldeb i bawb pan sylweddolwyd nad oedd llawer o bobl yn medru defnyddio eu cerdyn bws 60+ ar gludiant cyhoeddus confensiynol oherwydd oedran neu anabledd. Fodd bynnag, cafodd ei sefydlu mewn dull cystadleuol gyda 15 cynllun yn cael eu dewis i beilota mathau gwahanol o'r fenter yn 2005-2008. Er bod ymestyn tocynnau teithio rhatach i CC wedi digwydd – ac yn dal i ddigwydd – am y tro cyntaf yn y DU yma ac er gwaethaf gwerthusiad allanol o'r cynllun a argymhellodd ddatblygu'r cynllun ar draws Cymru, mae'r peilot ond wedi cael ei ymestyn am 3 blynedd arall gyda'r gweithredwyr presennol. Roedd CTA Cymru wedi gobeithio y byddai Llywodraeth Cymru'n derbyn yr argymhellion ac yn ymestyn CTCFI ar sail tocynnau teithio ar wahân yn unol â thocynnau teithio rhatach Cymru gyfan, ond nid felly y bu.

Ar y cychwyn, sefydlwyd CTCFI er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i'r henoed a phobl anabl. Gan fod poblogaeth Cymru'n heneiddio o hyd a chan fod gennym raddfa anabledd ac anfantais sydd ychydig yn uwch na rhannau eraill o'r DU, mae'n sicr y bydd yr angen am y gwasanaeth hwn yn dal i dyfu. Ni fydd torri'r CTCFI yn mynd i'r afael â goresgyn anghydraddoldeb, y mae Llywodraeth Cymru wedi'i hymrwymo iddi ac mi fydd yn cael effaith anghymesur ar ein dinasyddion mwyaf agored i niwed.

Boed i'r "Force" Fod Gyda Chi!

Fel rhan o'u Siarter Gymunedol, mae'r NatWest wedi'i ymrwymo i helpu'r cymunedau lle mae'n byw ac yn gweithio. Y canlyniad yw Community Force – cynllun grantiau bach sy'n helpu prosiectau ac elusennau lleol i godi ymwybyddiaeth am eu gwaith a gobeithio gwireddu eu cynlluniau.

Un o'r rhai lwcus a dderbyniodd grant eleni oedd CC VEST, diolch i gefnogaeth a dyfalbarhad eu defnyddwyr a'u cefnogwyr. Mae VEST yn gwasanaethu trigolion Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'n gweithredu tri gwasanaeth – Cludiant Cymunedol (CC) sy'n cael ei redeg 24/7, Galw'r Bws a Galw a Theithio (DR). Ar hyn o bryd, mae CC yn berchen ar 6 bws mini mawr sy'n darparu cludiant i Ganolfannau Dydd, clybiau ac elusennau fel y Gymdeithas Strôc, Age Concern, Cymdeithas Clefyd Parkinson & CIB. Hefyd, mae'n darparu cludiant ar gyfer grwpiau ac unigolion sy'n dymuno teithio'n bellach i ffwrdd o fewn y DU. Ers mis Mai 2006, mae VEST wedi darparu ei wasanaethau'n rhad ac am ddim yng Nghymru oherwydd cynllun prosiect CTCFI. Pan ddaw hyn i ben ym mis Mawrth 2012, bydd angen i VEST godi ar y teithwyr eto. Gan fod prisiau teithio CC heb gael eu newid ers 2003, bydd effeithiau chwyddiant mewn costau tanwydd yn arbennig ac effaith y gyfradd cyfnewid sterling/ewro ar gost y cerbydau yn golygu codiad yn y pris. Bydd VEST yn defnyddio'r arian i gyfyngu ar y codiad ym mhris y tocynnau fis Ebrill nesaf a lleihau'r diffyg yn y gronfa wrth gefn ar gyfer eu cerbydau.

Yng Ngorllewin Cymru, dyfarnwyd £6,000 ar gyfer bws mini cymunedol newydd yn ardal Abergwaun, Trefdraeth a Threletert gan yr un grant trwy'r system bleidleisio. Mae Trafnidiaeth Wirfoddol Sir Benfro (PVT) yn darparu cludiant hygyrch fforddiadwy ar gyfer cymunedau a grwpiau gwirfoddol yn yr ardal wledig yma. Mae PVT yn annog y defnydd o yrwyr gwirfoddol lleol ac maen nhw'n eu hyfforddi hyd at y safon MiDAS genedlaethol. Mae modd cyrchu eu pum bws mini gyda mynediad i gadeiriau olwyn a stepiau isel. Dros y blynyddoedd diwethaf yma, maen nhw wedi ceisio lleoli eu bysiau ar draws y sir yn hytrach nag yn ganolog yn Hwlffordd. Mae'r prosiect hwn yn helpu hyrwyddo'r nod yma yn ardal Abergwaun gyda bws mini newydd cwbl hygyrch yn cyrraedd yn 2012 a fydd yn cymryd lle hen fws mini sydd wedi'i leoli'n llwyddiannus yn yr ardal ers Awst 2010 er mwyn profi'r galw.

Mae'r cynllun Community Force yn gwneud 3 dyfarniad o £6k yn flynyddol i grwpiau yng Nghymru a Lloegr. Mae grwpiau'n gwneud cais ac os cânt eu derbyn, mae'r prosiectau'n cael eu cyhoeddi ar wefan y NatWest, lle mae cefnogwyr yn cofrestru ac yn pleidleisio am eu hoff gynlluniau yn ystod y mis pleidleisio. Am fwy o wybodaeth ewch i www.communityforce.natwest.com

Oriel Enwogion Cludiant Cymunedol 2011!

Christian Schmidt—Sewta

Criw Dolen Teifi

Dean Cawsey Dansa & Cllr Alun Thomas

Sarah Leyland-Jones PAVO, Phill Taylor Aberfan & Merthyr Vale and Ceri Rees Pembrokeshire CC

Galw'r Gyrrwr Rhaeadr & Geraldine a Lawrence Cocker o Data Images and Solutions Cyf.